



LLACIO'R CYFNOD CLO

LLYTHYR BUGEILIOL ODDI WRTH ESGOB GREGORY

ar gyfer dydd Iau, 2 Gorffennaf 2020

Rwy'n meddwl ein bod ni i gyd wedi cael ein rhyfeddu gan y cyfnod clo. Pan ddechreuodd ganol Mawrth, doedden ni ddim yn sicr am faint y byddai'n parhau, ond roedd yn edrych y byddai'n gyfnod go hir, gyda dechrau pendant a gorffen pendant. Un diwrnod, byddai perygl y feirws y tu ôl i ni a ninnau'n ail gydio yn ein bywydau. Erbyn hyn, rydyn ni'n deall y daw'r cyfnod clo i ben gam wrth gam – rhywbeth yn debyg i droedio'n ofalus ar draws rhew twyllodrus ar lyn, mae'n rhaid i bob cam newydd fod yn ysgafn i ddechrau rhag ofn na fydd y rhew yn ein dal – a yw'n ddiogel cymryd y cam yma neu a fydd yn rhaid i ni gamu'n ôl os bydd y feirws yn codi ei ben eto.

Felly, mae'r rheolau'n newid, yn Lloegr, un diwrnod mae'r ysgolion yn agor, y diwrnod nesaf maen nhw'n cau. Mae'r rheolau yng Nghymru'n wahaol i'r rhai yn Lloegr. Ai dwy fetr yw'r pellter y dylen ni gadw oddi wrth ein gilydd neu un plws? Un plws beth? Fe allwn ni deithio pum milltir, neu ymhellach os oes yna reswm da, ond sut beth yw rheswm da? Roedd canolfannau garddio ymysg y cyntaf i agor, mae barbwyr a thrinwyr gwallt yn cymryd archebion, ond a ydyn nhw'n cael agor eto? Mae'n rhaid i mi gyfaddef fy mod i'n dechrau cael fy nrysu.

Mae hyd yn oed y rheolau ar gyfer eglwysi'n newid yn aml. Un wythnos rydyn ni ar agor ar gyfer gweddio'n breifat, ac y mae'n ymddangos y bydd priodasau'n cael eu cynnal cyn bo hir, a bod cyhoeddiadau newydd ar ei ffordd. Ond, mae'n ymddangos na fyddwn ni'n cael dathlu'r Ewcharist i holl bobl Dduw yn ein eglwysi lleol am sbel go lew eto.

Bydd yn rhaid i ni ddysgu rheolau llacio'r cyfnod clo, a byw efo nhw. Ond, mae'r sefyllfa wedi dod yn gymhleth a'r ymrwymiad a'r cadernid unedig o dan bwysau. Aeth atyniad y traethau'n drech na rhai, denwyd rhai eraill gan y cyfle i adnewyddu cyfeillgarwch ac eto, mae llawer, os nad y rhan fwyaf, wedi dod yn fwy gofalus, rydyn ni wedi dysgu troedio'n ysgafn o gwmpas yr archfarchnad, gan droelli i gadw'r rheol dwy fetr.

Pa lacio ar reolau ffydd sydd yna yn y cyfnod clo? Sut mae Duw'n galw arnom ni i wneud efo'n gilydd? Dyma ddim ond tri o'r pethau sy'n agos at frig fy rhestr.

Trugaredd Rwyf wedi ysgrifennu o'r blaen ynghylch sut rydyn ni wedi rhoi pobl fregus yng nghanol ein cymdeithas yr adeg yma. Mae ein heglwysi wedi gwneud pethau eithaf

wylaidd ond go bwysig hefyd y dyddiau hyn – cadw llygad ar y rhai sy'n ynysu, danfon meddyginiaethau, coginio a danfon prydau, sicrhau cefnogaeth. Wrth i ni lacio'r cyfnod clo, sut allwn ni ddal i fod yn dosturiol, ac wrth i ni ail gydio ym manion bywyd bob dydd, sut allwn ni gadw'r lle i bobl eraill? “Byddwch yn drugarog, fel y mae eich Tad yn drugarog” meddai Iesu (Luc 6.36) a dyma un o'r pethau pwysicaf sy'n dangos cymuned Gristionogol ofalgar.

Cydweithio Un o'r dywediadau rwy'n eu clywed yn aml yw “Rydyn ni i gyd yn hyn gyda'n gilydd”, ond mae hynny, mae'n ymddangos i mi, wedi dod yn fwy na geiriau. Rydyn ni wedi bod yn dysgu cydweithredu. Mae'r pethau rydyn ni wedi'u gwneud, ein llwyddiannau, wedi digwydd oherwydd ein bod ni, fel Corff Crist, wedi gweithredu fel un corff. Rydyn ni'n gallu gwneud Cristionogaeth, yn rhy aml, yn ffydd breifat: fy ngweddïau, fy ffydd, fy iachawdwriaeth. Eto, mae yna ddimensiwn corfforaethol bob tro – pan mae dau neu dri wedi ymgynnull, dyna pryd y daw Crist i'n plith, a gyda'n gilydd, gallwn wneud mwy. Rwy'n gobeithio y byddwn ni'n buddsoddi yn yr Eglwys wrth i'r cyfnod clo lacio. “Ynddo ef yr ydych chwithau hefyd yn cael eich cydadeiladu i fod yn breswylfod i Dduw yn yr Ysbryd.” (Effesiaid 2.22). Dyna weledigaeth i Deulu Asaph, bod Duw gartref yn ein plith.

Dewrder. Rwyf wedi rhyfeddu pa mor ddewr mae teulu'r Eglwys wedi bod wrth wynebu'r dyfodol. Dydyn ni ddim wedi gohirio penderfyniadau ariannol, ar gydweithredu nac ar efengylu. Dydyn ni ddim wedi troi cefn ar addoli na chenhadu, fel petai'r rhain yn gallu aros tan yn nes ymlaen. Ac mae'n rhaid i'r ymrwymiad hwn barhau, yn wir bydd yn rhaid iddo gynyddu wrth i'r cyfnod clo lacio: at ba bethau newydd y mae Crist yn ein galw ni? “bydd wrol a dewr, paid ag arswydo na dychryn” oedd anogaeth Duw i Joshua wrth iddo gymryd yr awenau oddi wrth Moses (Joshua 1:9) ac rwy'n siŵr mai dyma eiriau Duw i ni heddiw hefyd.

Mae'r rhain yn eiriau mawr – ac eto rwy'n credu ei bod yn deg dweud eu bod eisoes wedi dod yn wir i ni yn ystod y tri mis diwethaf. Bydded iddyn nhw hefyd fod yn arwyddair i'n dyfodol ninnau hefyd: rheolau ar gyfer llacio'r cyfnod clo, a bod yn ffyddlon i Grist.

+gregory/benewy